Authority's conclusion that closure was the most appropriate option seemed to the Minister to be reasonable on strategic grounds. The Local Authority is clearly open to alternatives as it has pursued federations in other cases.

**Additional Factors to be taken into account in approving/determining school organisation proposals**

**Whether there are any other related proposals**

28. The Minister is satisfied that there were no other related proposals to consider. Although the Governing Body and the Diocese argue that the Local Authority should not have brought forward, and determined the proposal to close Ysgol Llanbedr before other proposals to reorganise primary schools in Ruthin, the Minister considers the Local Authority's approach to reorganisation of primary school provision on a phased basis to be reasonable.

**Whether consultation has been conducted in accordance with the Code**

29. When approving or determining proposals, the School Organisation Code states that relevant bodies must ensure that the statutory consultation has been conducted in accordance with this Code. The decision maker must consider the consultation document and the consultation report.

30. The Minister is satisfied with the circulation given to the consultation document and that there was sufficient time for interested parties to respond.

31. The Minister notes that the Governing Body and the Diocese have raised concerns that the consultation conducted by the Local Authority did not comply with the requirements of the Code.

32. The Minister notes that pupils at Ysgol Llanbedr were not involved in a specific consultation meeting, which would normally be expected in compliance with the Code. However the Minister concluded that whilst this could be perceived as a failing on the part of the local authority, the governing body of the school also neglected to comply with the Code by refusing to allow the local authority to meet pupils to discuss the proposal. The local authority produced a specific document for children, which enabled them to engage in the consultation process.

33. The School Organisation Code sets out, in the case of all proposals, that consultation documents must contain certain information, including the following:

*the likely impact of the proposals on the quality of the following (reference to relevant Estyn Key Questions are included in brackets):*

*a) Outcomes (standards and wellbeing) ;*
*b) Provision (learning experiences, teaching, care support and guidance, and learning environment);*
*c) Leadership and management (leadership, improving quality, partnership working and resource management);*

*at the school or schools which are the subject of the proposals and at any other school or educational institution which is likely to be affected.*

*information from the most recent Estyn reports for each school likely to be affected;*

*the likely impact of the proposals on the ability of school or schools which are the subject of the proposals or any other school which is likely to be affected, to deliver the full curriculum at the foundation phase and each key stage of education.*

34. The Minister takes the view that whilst the consultation document was reasonably comprehensive, some particularly important mandatory content was not present. The Minister is satisfied that the consultation did not provide the following:

- any information about the quality of the accommodation at Ysgol Borthyn.
- any evaluation of the likely impact of the proposal on the quality of outcomes, provision, and leadership and management at Ysgol Borthyn.
- information from the most recent Estyn report for Ysgol Borthyn.
- any information on the likely impact of the proposal on the ability of Ysgol Borthyn to deliver the full curriculum at the foundation phase and each key stage of education.
- a specific comparison of the quality and standard of education provided at the Ysgol Llanbedr, and that provided at Ysgol Borthyn. Nor did it provide an outline of any steps necessary in order to ensure that any identified shortcomings in the latter were addressed.
- provide a comparison of the quality of accommodation at Ysgol Llanbedr and that at Ysgol Borthyn. Nor did it provide an outline of any steps necessary in order to ensure that any identified shortcomings in the latter were addressed.

35. Some of the above missing information was available elsewhere – on Estyn's website, the My Local School website and survey information about the building provision. However, important information was not available elsewhere, in particular the comparison between Llanbedr and the alternative schools. The Minister therefore has concluded that the consultation was flawed.

36. The Minister is aware that a procedural non-compliance is not always fatal but a decision taken after a flawed consultation exercise will only stand if the Minister is satisfied that the outcome would inevitably have been the same had the consultation exercise not been flawed.

37. The Minister is not satisfied to the requisite high degree that he would inevitably have reached the same decision on the proposal had the information been included in the consultation document. This is particularly the case where the failure in the consultation exercise related to one of the most important issues, if not the most important issue, that required consideration.

38. The purpose behind the missing information being included in the consultation document is to enable parents and those interested to consider the potential quality of the alternative school(s). Interested parties were not provided with an explanation as to how the proposal would at least maintain standards of provision. This information is of particular importance to parents who are being asked to consider whether alternative arrangements that are being proposed for their children's schooling are acceptable or not.

39. The Code identifies that relevant bodies should place the interests of learners above all others, and the Minister believes that it is important that consultation documents should evidence the consideration that has been given to this matter. The document, in the Minister's view, made generalisations about challenges

facing small schools, and the benefits of larger schools but recognised the good standard of provision at Ysgol Llanbedr without providing a readily understandable comparison of standards at Ysgol Borthyn. In addition, no readily understood comparison was provided for any of the other alternative schools, apart from a table showing outcomes at Key Stage 2, with a minimum amount of contextualisation other than a statement that it was difficult to compare outcomes at schools with very small cohorts. The Code also provides that content must include information from the most recent Estyn reports for each school likely to be affected, but this was only provided for Ysgol Llanbedr. No information was provided, as required by the Code, on the condition of school buildings apart from the condition at Ysgol Llanbedr, an additional omission that would have been of relevance to interested parties when considering the comparability of schools.

40. The Local Authority might consider that given the low number of pupils on roll at Ysgol Llanbedr currently, the impact on any other school would be minimal. However it is clear that relevant information should at the very least have been provided about Ysgol Borthyn, in order to properly inform parents about the alternative school offered in the specific proposal.

41. The Minister takes the view that it is important not just to focus on the amount of information that was omitted from the Council's consultation document, but also the nature of that information. In his view, the effect of the Council's failure to comply with the Code was that consultees were provided with no proper explanation as to why the Council considered that the proposal to discontinue the School would at least maintain quality and standards in education as they were provided with virtually no information on that issue. The omission of a reasoned argument about standards would not have assisted interested participants. The Minister has concluded that as a result, consultees were not properly informed about one of the most important issues (if not the most important issue) that arises for consideration in the context of a proposal to discontinue a school. The ability to compare standards at schools is of significant importance when parents are considering how to respond to a proposal that their school should be closed. This information is required to enable parents to come to a fully informed view as to whether alternatives provide at least equivalent standards of provision. In the Minister's view, its omission was therefore important in that it did not provide consultees with the full picture. Some consultees did draw their own conclusions on the suitability of the alternatives, based on the information they were able to obtain. However, that in itself does not rectify that failure.

42. The Minister takes the view that information that the local authority brought to the fore following the end of the consultation period, which contextualised performance data would have assisted interested parties in forming their response. However, this was produced after the consultation had been completed.

43. The Minister has not been able to satisfy himself that he has had all the information that might have been available to him had the local authority provided more detailed information to interested parties about standards and quality during the consultation period. For example, the local authority provided further information to decision makers about Ysgol Borthyn, as part of the objection report, covering such matters as the proportion of pupils with SEN at the schools, which might have assisted parents in making a comparison between the schools, but the Minister does not have interested parties' views on this matter. Whilst it seems very unlikely

that the Minister would have received views that would have persuaded him that Ysgol Borthyn was not a suitable alternative school in terms of standards, he cannot be certain that his view would remain unchanged as he cannot know what might have been said had further information on, for example, standards and quality, been provided. In other words, the Minister is not satisfied that if the consultation had been undertaken properly, nothing could have been said that would affect his decision.

44. The Minister would like to make it clear that had there been a lack of coverage about matters of lesser importance in the consideration of school organisation proposals, then a flaw might not be considered sufficiently serious to necessitate the position he is taking in respect of this proposal. He expects those who are bringing forward proposals for change to provide more comprehensible information about the likely impact that the change will have on quality and standards in education than that which was provided in the consultation documentation in this case.

45. There were other issues of concern to objectors that the Minister did not agree with. For example, in spite of allegations to the contrary, he considers that the local authority was generally open and fair in the way that it developed the proposal. The Minister recognised that the local authority developed two quite different proposals for formal consultation in the Ruthin area, and he considers that this was reasonable and was a response to different circumstances, having regard to the differing locations, and distance from the main centres of population, and not because of prejudice. The Minister is satisfied that the local authority has an ongoing commitment to retaining schools with a religious character and is aware of proposals it is making to increase the number of schools with a religious character at another location.

46. The Minister feels he has no alternative other than to reject this proposal, notwithstanding the educational merits of the proposal. The Minister has concluded that the consultation was flawed and the flaws were significant. The Minister considers that because of the limited coverage of standards and quality in the consultation document, he cannot satisfy himself to the requisite high degree that he would inevitably have approved the proposal as a more comprehensive document in this respect could have elicited a different response from that which ensued.

47. The Minister however recognises that there are a number of arguments in favour of his approving the proposal, and he is generally satisfied that it would:

maintain the standard of education provision and ensure the delivery of a broad and balanced curriculum
allow pupils who attend Ysgol Llanbedr access to education at an alternative English medium Church in Wales school which is within a reasonable distance and which is more sustainable for the future.
provide a choice of other schools should parents prefer a smaller school
deliver education more equitably and more cost effectively.
make savings that will be retained in the education budget.
reduce surplus places by 54 places

48. The Minister is concerned about the future of Ysgol Llanbedr in the light of the relatively low number of children on roll, and the temporary nature of current leadership. He expects the local authority to consider the future of the school carefully and if it decides that it should be retained, believes that it should be provided with support. If the local authority decides, on the other hand, that other arrangements would be in the educational interests of all pupils in the area, the Minister expects it to carefully comply with the mandatory requirements of the School Organisation Code in respect of any changes it proposes.

49. I am sending a copy of this letter to the Chief Executive of Denbighshire County Council.

50. On this occasion, a copy of this letter is also being sent to Assembly Members who have objected, and David Jones MP, who has taken an interest in the proposal.

Yours sincerely

Steve Vincent

**STEVE VINCENT**
**DEPUTY DIRECTOR: SCHOOLS MANAGEMENT AND EFFECTIVENESS DIVISION**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Chwefror 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Irving / Phil Gilroy** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **John Sweeney / Stephen Convill** |
| **Teitl:** | **Gweithredu Deddf Tai Cymru 2014** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gofyniad a osodir ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa grwpiau o bobl ddigartref y byddant yn cymhwyso'r prawf "digartref yn fwriadol", pan ddaw Deddf Tai (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2015.

Yn ei hanfod, mae diffiniad o fod yn ddigartref yn fwriadol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn effeithiol yr un fath â'r hyn a geir yn y ddeddfwriaeth bresennol (Deddf Digartrefedd 2002); sy'n datgan

*"a person becomes homeless intentionally or threatened with homelessness intentionally if:*

- *the person does or fails to do anything in consequence of which the person ceases to occupy accommodation(or the likely result of which is that the person will be forced to leave accommodation)*
- *the accommodation is available for the person's occupation; and it would have been reasonable for the person to continue to occupy the accommodation"*

Fodd bynnag, ni ddylid trin gweithred neu anwaith a wnaed yn ddidwyll gan rywun nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ffaith berthnasol, yn fwriadol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I ofyn bod y Cabinet yn gwneud penderfyniad o fewn yr amserlen a ragnodwyd (Atodiad 1) ar bwy y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cymhwyso'r prawf o "fwriadoldeb".

Y cartrefi y gellir cymhwyso'r "prawf bwriadoldeb" yw ble mae'r cartref;

- Yn cynnwys plant dibynnol neu fenyw feichiog
- Yn ddiamddiffyn oherwydd henaint
- Yn ddiamddiffyn oherwydd anableddau corfforol neu salwch meddwl / anableddau dysgu
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn ymadawr gofal / neu'n berson ifanc mewn perygl arbennig o gam-fanteisio rhywiol neu ariannol (18-20 mlwydd oed)
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn 16 neu 17 mlwydd oed
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn dianc rhag trais yn y cartref / camdriniaeth neu fygythiad o drais
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn gadael y lluoedd arfog

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n cytuno nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn eithrio unrhyw un o'r grwpiau a enwir o dan adran 2 yr adroddiad hwn, ond yn hytrach yn parhau i gymhwyso'r "prawf bwriadoldeb" i bob un ohonynt, a chyhoeddi ei fwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru (Atodiad 1).

*Sylwer: Bydd methiant i wneud penderfyniad a rhoi cyhoeddusrwydd i hyn o fewn y ffrâm amser penodedig (Atodiad 1) yn golygu na fydd gan y Cyngor unrhyw ddisgresiwn dros gymhwyso'r "prawf bwriadoldeb" o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 hy, ni fydd yn gallu cymhwyso'r "prawf", a gallai hyn fod yn ffactor risg sylweddol, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.*

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried gwahardd y prawf "bwriadoldeb" o'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Y rhesymeg y tu ôl i'r dull yma o feddwl yw bod gan lawer o gartrefi sy'n benderfynol o fod yn ddigartref yn fwriadol yn aml anghenion cymorth sylweddol heb eu bodloni, a gall peidio â'u darparu â llety sefydlog a mynd i'r afael â'r anghenion hyn effeithio'n sylweddol ar yr aelwyd a'r pwrs cyhoeddus mewn meysydd megis gwasanaethau cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol (gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaeth prawf), gwasanaethau iechyd a sefydliadau gwirfoddol.

4.2 Yn y tymor hir, mae Llywodraeth Cymru wedi addo cael gwared ar y prawf bwriadoldeb i bob teulu. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd o fis Ebrill 2019. Gan mai Swyddogion y Cyngor fydd â chyfrifoldeb am y maes gwaith hwn, rydym yn gefnogol i'r ymrwymiad tymor hir i gael gwared ar y "prawf". Fodd bynnag, am resymau ymarferol, ein barn ni ar hyn o bryd yw na fyddai'n amserol nac yn briodol i gael gwared arno o unrhyw grŵp unigol sy'n datgan eu bod yn ddigartref i Gyngor Sir Ddinbych wedi Ebrill 2015.

4.3 Trwy beidio â chael gwared ar y "prawf bwriadoldeb" ar hyn o bryd nid ydym yn argymell cymryd agwedd ddeddfol a chosbol i aelwydydd digartref sydd wedi cael eu hystyried yn "ddigartref yn fwriadol"; eu troi i ffwrdd heb ddim mwy na chyngor sylfaenol. Yn hytrach, rydym yn argymell sefyllfa dros dro rhwng nawr a chael gwared ar y "prawf bwriadoldeb" gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, lle y defnyddir "prawf bwriadoldeb" mewn modd cadarnhaol i'w ddefnyddio, lle bo'n briodol, gan gydweithio gyda'r rhai "digartref yn fwriadol" er mwyn cydweithio â'r Cyngor i adnabod a mynd i'r afael â materion sy'n sail achosol i'w digartref neu fygythiad o fod yn ddigartref. Drwy ddatgan bod cartref yn "fwriadol yn ddigartref" rydym yn datgan nad oes gennym unrhyw ddyletswydd statudol i ddarparu cynnig o denantiaeth; ond gall hyn fod yn gychwyn ar drafodaeth onest am y ffactorau achosol a llunio Cynllun Tai Personol ffurfiol i'r afael â hwy yn gyfnewid bod y Cyngor yn defnyddio ei bwerau i'w galluogi i sicrhau llety yn y sector rhentu preifat.

*(Noder; dan ein cynigion i gymryd lle'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai a Digartrefedd bresennol gyda Gwasanaeth Datrysiadau Tai, byddwn yn cydweithio'n llawer agosach gyda landlordiaid preifat i helpu i liniaru'r risg busnes iddynt wrth roi llety i deuluoedd digartref).*

4.4 Caiff y cyfnod dros dro rhwng y daw Deddf Tai (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2015 ac Ebrill 2109, y dyddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag ato i gael gwared ar y "prawf bwriadoldeb" o'r ddeddfwriaeth, ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Ddinbych i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a fydd yn cael ei wneud gyda chartrefi sydd yn "ddigartref yn fwriadol", fel yr amlinellir uchod, drwy weithio gydag asiantaethau partner - yn benodol comisiynwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl, darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl, gwasanaethau cymdeithasol i Blant ac Oedolion gan gynnwys "Tîm o Amgylch y Teulu", i ddatblygu fframwaith aml asiantaeth gydlynol ar gyfer cartrefi digartref sydd ag anghenion cymorth sydd heb eu bodloni.

4.5 Bydd gan y Tîm Datrysiadau Tai gyfrifoldebau ychwanegol sylweddol newydd pan ddaw’r “Ddeddf” newydd i rym, a fydd yn cymryd cryn amser i ymsefydlu. Byddai cael gwared ar y “prawf bwriadoldeb” naill ai’n llawn neu’n rhannol cyn bod fframwaith priodol ar waith yn golygu bod gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau llety ar gyfer cartrefi digartref gyda llawer o anghenion cefnogi heb eu bodloni, ond heb unrhyw fecanwaith i gael ymrwymiad gan y cartrefi i fynd i’r afael â ffactorau achosol eu digartrefedd neu eu bygwth â digartrefedd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg busnes ar gyfer landlordiaid, ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o chwalu tenantiaeth ac ailadrodd y cylch digartrefedd gyda chost ychwanegol i'r pwrs cyhoeddus.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y blaenoriaethau canlynol yn y Cynllun Corfforaethol:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl;
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd yna unrhyw gostau ychwanegol; ond dylai’r ffordd arfaethedig o weithio gyda chartrefi sydd "yn ddigartref yn fwriadol" gymryd y pwysau oddi ar wasanaethau eraill y Cyngor - yn benodol Gwasanaethau i Oedolion a Phlant.

Mae'r penderfyniad a argymhellir yn ymwneud â chadw'r sefyllfa bresennol ynghylch "digartrefedd bwriadol" a bydd unrhyw gostau sy'n ymwneud â galluogi cartref "ddigartref yn fwriadol" i gael mynediad at denantiaeth breifat yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb ar gyfer y Tîm Datrysiadau Tai.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Yr argymhelliad yw peidio â gwneud unrhyw newid i'r polisi presennol, felly nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Y cyngor gan y Gwasanaethau Democrataidd yw nad oes angen ymgynghori ag Archwilio.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Derbyn nad yw'r penderfyniad a argymhellir yn cyflwyno unrhyw risg.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Tai (Cymru) 2014: Rhan 2 Digartrefedd: a 78. Penderfynu i roi sylw i fwriadoldeb.

Deddf Llywodraeth Leol 1972: a 111

**ATODIAD 1**

## Ymchwilio i fwriadoldeb yn dilyn Gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014

### 1) Pwrpas y Papur hwn

Diben y papur hwn yw tynnu sylw at y newidiadau yn y ddeddfwriaeth, sy'n ymwneud â 'digartrefedd bwriadol', pan ddaw Deddf Tai (Cymru) i rym yn Ebrill 2015. Mae hefyd yn tynnu sylw'r awdurdodau lleol yng Nghymru at y camau y bydd rhaid iddynt eu cymryd hyd nes y caiff ei weithredu.

### 2) Y Ddeddf

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn datgan;

*"A person is intentionally homeless if ….the person deliberately does or fails to do anything in consequence of which the person ceases to occupy accommodation which is available for the person's occupation and which it would have been reasonable for the person to continue to occupy"*

Os y cymerir penderfyniad o ddigartrefedd bwriadol, caiff dyletswyddau tai yr awdurdod lleol eu lleihau'n sylweddol. Mae'n werth nodi bod penderfyniadau bwriadoldeb yn brin. Yn ystod 2014, roeddynt yn cynrychioli tua 5% o'r holl benderfyniadau a gymerwyd.

Nid yw'r diffiniad hwn yn wahanol i'r hyn rydym yn gweithio ag o nawr. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhywfaint o newidiadau ar y modd y mae'n cael ei gymhwyso. O fis Ebrill 2015, bydd rhaid i Gynghorau benderfynu i pa gartrefi y byddant yn cymhwyso'r diffiniad hwn.

Yn yr hir dymor, mae Llywodraeth Cymru wedi addo i gael gwared ar y prawf bwriadoldeb i bob teulu. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2019. Mae hyn ar gyfer y tymor hir, ond mae camau y bydd angen i bob awdurdod eu cymryd dros y misoedd nesaf.

### 3) Cymhwyso'r Prawf

Er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad ynghylch p'un ai i gymhwyso bwriadoldeb, mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu cartrefi mewn i'r grwpiau angen blaenoriaethol. Maent yn disgwyl i gynghorau roi gwybod iddyn nhw a'r cyhoedd pa grwpiau y mae pob awdurdod lleol yn mynd i gymhwyso'r 'prawf bwriadoldeb' iddynt.

Y grwpiau hyn yw lle mae'r cartrefi;

- Yn cynnwys plant dibynnol neu fenyw feichiog
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu henaint
- Yn ddiamddiffyn oherwydd anableddau corfforol neu salwch meddwl / anabledd dysgu

- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn ymadawr gofal/neu yn unigolyn ifanc mewn risg arbennig o gam-fanteisio rhywiol neu ariannol (18-20 mlwydd oed)
- Yn ddiamddiffyn oherwydd bod yn 16 neu 17 mlwydd oed
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn dianc rhag trais yn y cartref / trais neu fygythiad o drais.
- Yn ddiamddiffyn oherwydd eu bod yn gadael y lluoedd arfog
- Yn ddiamddiffyn am resymau eraill

Felly, mae angen i'r Cyngor benderfynu pa un o'r grwpiau hyn y maent yn bwriadu parhau i gymhwyso'r prawf. Bydd angen cynnwys deilydd portffolio/Aelodau yn y penderfyniad. Unwaith y bydd y penderfyniad wedi cael ei wneud, bydd angen i'r awdurdod roi gwybod i Lywodraeth Cymru a chyhoeddi eu penderfyniad ar eu gwefan leol a thrwy unrhyw ddull arall a ystyrir yn angenrheidiol.

**4) Rhestr wirio ar yr hyn y bydd angen i Awdurdodau Lleol ei wneud yn y cyfnod hyd nes y daw i rym**

Mae'r canlynol yn cynnig rhestr o dasgau y bydd angen i bob awdurdod lleol eu cwblhau yn y cyfnod hyd nes y daw'r Ddeddf i rym.

| Tasg | Amserlen |
|---|---|
| Rhoi gwybod i Aelodau/ Aelodau'r Cabinet o newidiadau am y modd y gellir cymhwyso'r prawf bwriadoldeb | Ionawr 15 |
| Derbyn cytundeb gwleidyddol/deilydd portffolio am ba rai o'r grwpiau angen blaenoriaethol y bydd yr awdurdod yn parhau i gymhwyso'r prawf bwriadoldeb | Erbyn diwedd Chwefror 15 |
| Cytuno ble y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi, ee, ar wefan, mewn cylchlythyrau, llenyddiaeth, swyddfeydd lleol, ac ati a gweithredu | Trwy Chwefror a Mawrth 2015 |
| Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i roi gwybod iddynt am eich bwriadau | Erbyn diwedd mis Mawrth (fan bellaf) |
| Gwneud staff a phartneriaid yn ymwybodol o'r polisi bwriedig | Erbyn diwedd mis Mawrth (fan bellaf) |

## 5) Adlewyrchu

Mewn trafodaethau gyda swyddogion, ymddengys y byddai'r rhan fwyaf yn ffafrio, (o leiaf yn y tymor byr), cadw'r 'prawf bwriadoldeb' ar gyfer yr holl grwpiau hynny y maent yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Y rhesymeg am hyn yw bod llawer o newidiadau o’n blaenau a byddai’n well ganddynt i’r rhain gael eu sefydlu a meithrin dealltwriaeth am eu heffaith, cyn newid polisi ynghylch bwriadoldeb.

Wrth i oblygiadau'r Ddeddf gael eu deall yn well, mae'n ddigon posibl y byddant yn ailasesu'r angen i gymhwyso'r prawf ar gyfer rhai grwpiau.

Yn y pen draw, mae'n benderfyniad gwleidyddol a bydd angen i swyddogion drafod y newidiadau a goblygiadau posibl gyda gwleidyddion priodol er mwyn iddynt benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

## 6) Casgliadau

Oherwydd newidiadau a gyflwynwyd drwy'r Ddeddf Tai (Cymru), bydd y modd y caiff prawf digartrefedd bwriadol ei gymhwyso yn newid o Ebrill 2015. Mae'r papur byr hwn wedi egluro’r newidiadau ac wedi trafod y camau y bydd angen i awdurdodau lleol eu cymryd wrth i’r adeg y caiff y ddeddf ddod i rym nesáu.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Chwefror 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Gosod Rhent Tai a Chyllidebau Refeniw Tai a Chyfalaf 2015/16** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer y cynnydd rhent arfaethedig a chyflwyno taliadau gwasanaeth a chymeradwyo Cyllidebau Cyfrif Refeniw Tai a Chyfalaf ar gyfer 2015/16.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'n ofyniad statudol gosod cyllidebau a lefelau rhent cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd ac mae'n rhaid i'r gyllideb gyd-fynd â'r rhagdybiaethau yn y Cynllun Busnes Stoc Tai sydd wedi'i ddylunio i gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod y cynllun busnes 30 mlynedd.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2015/16 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2) yn cael eu mabwysiadu.

Bod rhenti ar gyfer anheddau'r Cyngor yn codi yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 i rent wythnosol cyfartalog o £74.93 yn weithredol o ddydd Llun 6 Ebrill 2015.

Bod rhenti ar gyfer garejis y Cyngor yn codi yn unol â'r cynnydd mewn rhent ar gyfer anheddau'r Cyngor.

Bod costau gwasanaeth cyfartalog o £1.99 yr wythnos yn cael eu cyflwyno lle bo'n berthnasol yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r alldro diweddaraf a ragwelir ar gyfer 2014/15 wedi'i nodi yn Atodiad 1, yn unol â'r adroddiad monitro misol. Rhagwelir bydd y balansau ar ddiwedd y flwyddyn yn £1,322,000.

Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16 hefyd wedi'i nodi yn Atodiad 1. Cyfrifwyd y gyllideb yn seiliedig ar y canlynol:

- Mabwysiadu Polisi Rhent newydd fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014;
- Mae taliadau gwasanaeth yn cael eu datgronni o'r rhent wythnosol cyfartalog ar gyfer 2014/15 o £73.00. Mae hyn yn golygu tâl gwasanaeth cyfartalog o £1.99 yn cael ei dynnu o'r ffigwr hwn ac yna rhoddir y cynnydd a argymhellir o 2.7% a £2 i'r hyn sy'n weddill. Mae'r manylion pellach i'w gweld yn y tabl isod. Y cynnydd rhent cyfartalog yw 2.64%.
- Cyflwyno tâl gwasanaeth penodedig o £1/99 yr wythnos lle bo'n berthnasol.
- Mae dau werthiant Hawl i Brynu wedi'u cwblhau hyd yn hyn yn 2014/15. Rhagwelir un Hawl i Brynu bob blwyddyn ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod fodd bynnag adolygir hyn bob blwyddyn fel rhan o'r broses cynllunio busnes.
- Mae rhaglen o adeiladau newydd wedi'i dybio yn y Cynllun Busnes Stoc Tai at ddibenion cynllunio nes y datblygir cynlluniau penodol.

Mae Rhan 5 Deddf Tai (Cymru) 2015 yn caniatáu diddymu system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, fydd yn golygu y bydd canllawiau cyfredol ar gyfer system rhent yn dod i ben hefyd. Datblygodd Lywodraeth Cymru bolisi newydd ar gyfer rhenti tai cymdeithasol fydd yn cael eu cymhwyso'n gyson gan yr holl landlordiaid cymdeithasol ac yn adlewyrchu math, maint, lleoliad ac ansawdd eiddo'r Landlord. Gweithredwyd y polisi gan gymdeithasau tai ym mis Ebrill 2014 a bydd yn cael ei fabwysiadu gan yr awdurdodau tai lleol ar ôl gadael system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ym mis Ebrill 2015.

Mae'r dull o godi rhent yn awr yn seiliedig ar y canlynol:

- Rhwng 2015/16 a 2018/19, y cynnydd blynyddol yw CPI a 1.5%, a £2 yr wythnos ar gyfer tenantiaid unigol, lle bo landlord yn ceisio dod â'r rhent wythnosol cyfartalog o fewn y 'band rhent targed' – rhent targed yw cyfrifiad y Llywodraeth o beth y dylid ei ddefnyddio ar gyfer rhent cyfartalog tenantiaid cymdeithasau tai a thenantiaid y cyngor

- Yr unig eithriad yw lle bydd CPI tu hwnt i'r ystod rhwng 0% a 4%. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen penderfyniad Gweinidogol i bennu lefel y cynnydd rhent y dylid ei ddefnyddio'r flwyddyn honno.

- Mae'r polisi rhent yn caniatáu'r cyngor i gymhwyso lefel targed rhent 'pen uwch, canolig neu is' yn dibynnu ar gyflwr cyffredinol a gradd ynni'r stoc. Mae'r rhent targed wedi'i gadw ar y pen is drwy gydol y Cynllun 30 mlynedd ac mae'n parhau i fod yn hyfyw yn ariannol. Gan dybio cynnydd rhent targed o 3.5% y flwyddyn, byddai rhenti'r cyngor yn cydgyfeirio yn 2017/18.

Mae lefelau rhent cymharol wedi'u nodi isod ynghyd â bandiau rhent targed y Cyngor:

| | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Rhent wythnosol cyfartalog (o'r flwyddyn flaenorol) | £69.80 | £73.00 |
| Tynnu: Tâl gwasanaeth wedi'i datgronni | - | £1.99 |
| **Rhent wythnosol cyfartalog wedi'i addasu** | **£69.80** | **£71.01** |
| Ychwanegu: Cynnydd (CPI + 1.5%) | £3.20 | £1.92 |
| Rhent wythnosol cyfartalog wedi'i addasu | £73.00 | £72.93 |
| Ychwanegu: £2 cynnydd os yw'n is na'r rhent targed | - | £2.00 |
| **Rhent Wythnosol Cyfartalog** | **£73.00** | **£74.93** |
| **Tâl gwasanaeth wythnosol cyfartalog** | **-** | **£1.99** |
| **Cyfanswm y taliad wythnosol** | **£73.00** | **£76.92** |

| | Rhent Targed 2014/15 | Rhent Targed 2015/16 |
|---|---|---|
| | | |
| Pen Isel | £75.09 | £76.60 |
| Pwynt Canol | £79.05 | £80.63 |
| Pen Uchaf | £83.00 | £84.86 |

**Cynllun Busnes Stoc Tai (CBST)**

Fel rhan o broses y gyllideb mae'n ofynnol adolygu Cynllun Busnes Stoc Tai a chyflawnir hyn drwy ymarfer gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn flynyddol i adolygu'r tybiaethau a ddefnyddir a dilysu cadernid y model ariannol. Yn ogystal â hyn mae'r adolygiad yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd.

Mae CBST newydd wedi'i ddatblygu i ymgorffori diddymiad system HRAS, y polisi rhent newydd a chyflwyno taliadau gwasanaeth penodedig. Mae benthyciad o £39m i ariannu ffigwr setliad y Cyngor (i brynu allan o'r system HRAS) wedi'i gynnwys yn y CBST. Mae'r Cynllun Busnes yn parhau i fod yn hyfyw ac yn gadarn ac mae'r rhagdybiaethau a wnaed yn ddoeth.

**Garejis**

Bydd rhenti garejis yn cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn rhenti ar anheddau'r Cyngor yn y cynllun busnes. Cynhelir adolygiad o safleoedd garejis yn 2015/16 fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Asedau. Bydd rhenti garejis i denantiaid yn codi o £6.42 i £6.59.

**Taliadau Gwresogi**

Mae prisiau ynni'n parhau'n gyffredinol isel heb unrhyw arwyddion y byddant yn codi yn fuan, a hyd yn hyn mae'r holl wariant ar nwy wedi'i adennill gan y tenantiaid, felly argymhellir nad yw costau gwresogi'n cynyddu yn 2015/16. Nid yw'r costau yn y blynyddoedd blaenorol wedi adennill y gost lawn ac adlewyrchir hyn yn y sefyllfa wastad eleni. Adolygir hyn yn ystod y flwyddyn yn unol â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran prisiau ynni.

**Safon Ansawdd Tai Cymru**

Cyflawnodd y Cyngor y Safon Ansawdd Tai Cymru ar yr holl Stoc Tai ym mis Medi 2014. Mae'r gwariant cyfalaf wedi'i gynnwys yn y CBST sy'n cynnal y safon dros gyfnod o 30 mlynedd y cynllun.

Mae’r arolwg cyflwr stoc wedi nodi costau atgyweirio, cynnal a chadw a gwelliannau ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd wedi’u hychwanegu at y cynllun busnes a bydd yn hysbysu datblygiad y cynllun rheoli asedau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae darpariaeth tai o ansawdd da yn Flaenoriaeth Gorfforaethol a bydd y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd yn darparu hwb i’r economi leol drwy wneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth leol, hyfforddiant a chadwyni cyflenwi ar gyfer pobl leol a busnesau.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae’r Cyfrif Refeniw Tai wedi’i glustnodi ac mae’r costau gweithredu wedi’u cynnwys yn y cynnydd incwm drwy’r rhenti a thaliadau gwasanaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?**

Mae’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi amlygu bod angen sicrhau fod tenantiaid yn cael mynediad i gyngor a chymorth priodol i gynyddu’r nifer sy’n derbyn lwfansau y maent yn gymwys i’w derbyn.  Mae hyn yn cael ei wneud.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Ymgynghorwyd â Grŵp Llywio HRAS ynglŷn â chyflwyno taliadau gwasanaeth yn 2014/15. Cynhaliwyd sesiynau ‘galw draw’ i denantiaid ledled y sir ym mis Awst a Medi 2014. Yn ogystal â hyn mae’r manylion ynglŷn â chyflwyno taliadau gwasanaeth wedi’u cynnwys yn y newyddlen i denantiaid ‘Newyddion Tai’.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae adolygiad diweddar o'r Cynllun Busnes Stoc Tai (CBST) yn dangos fod y Cynllun yn parhau i fod yn gadarn ac yn hyfyw yn ariannol.  Mae digon o adnoddau i ddiwallu anghenion buddsoddi’r stoc.  Mae gadael yr HRAS a ffigwr setliad amcangyfrifedig o £39m wedi’i dybio yn y CBST yn seiliedig ar amcangyfrifon gwreiddiol LlC.  Mae ffigwr y setliad a’r cyfraddau llog perthnasol yn parhau i gael eu trafod ar hyn o bryd.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Gallai methu â dilyn y Cynllun Busnes Stoc Tai a gosod cyllidebau arwain at broblemau ariannol ac ymyrraeth bosibl gan Lywodraeth Cymru.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Gosodir y polisi rhent gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae’r Cyfrif Refeniw Tai wedi’i glustnodi yn ôl statud.

APPENDIX ONE

| Housing Revenue Account ~ 2015/16 Budget | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 Final Outturn £ | Latest Forecast 2014/15 | 2014/15 Budget £ | 2014/15 Forecast Out-turn £ | 2015/16 Proposed Budget £ |
| | **EXPENDITURE** | | | |
| 2,099,443 | Supervision & Management - General | 2,121,945 | 2,191,132 | 2,189,631 |
| 273,393 | Supervision & Management - Communal | 293,665 | 312,579 | 303,032 |
| 162,397 | Welfare Services | 90,048 | 90,048 | 93,673 |
| 2,913,748 | Repairs and Maintenance | 3,035,640 | 3,230,069 | 3,133,177 |
| **5,448,981** | **Total Housing Management** | **5,541,298** | **5,823,828** | **5,719,513** |
| 2,920,312 | Capital Financing Costs | 3,173,010 | 3,205,032 | 4,915,905 |
| 890,201 | Capital Funded from Revenue | 943,193 | 743,193 | 2,672,541 |
| 3,121,177 | Subsidy | 3,306,944 | 3,139,974 | 0 |
| 129,861 | Provision for Bad Debts | 132,725 | 132,723 | 132,905 |
| **12,510,532** | **Total Expenditure** | **13,097,170** | **13,044,750** | **13,440,864** |
| | **INCOME** | | | |
| 12,588,989 | Rents (net of voids) | 13,089,944 | 12,911,944 | 13,188,855 |
| 157,588 | Garages | 166,745 | 164,724 | 171,987 |
| 0 | Service Charges | 0 | 0 | 236,874 |
| 4,656 | Interest on Balances & Other Income | 3,600 | 3,600 | 10,955 |
| **12,751,233** | **Total Income** | **13,260,289** | **13,080,268** | **13,608,671** |
| | **Surplus / Deficit (-) for the Year:** | | | |
| **1,130,902** | **General Balances** | **1,106,312** | **778,711** | **2,840,348** |
| 1,046,322 | Balance as at start of year ~ General | 1,287,023 | 1,287,023 | 1,322,541 |
| **-890,201** | **Earmarked Balances** | **-943,193** | **-743,193** | **-2,672,541** |
| 1,287,023 | Balance as at end of year ~ General | 1,450,142 | 1,322,541 | 1,490,348 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**APPENDIX TWO** **HOUSING STOCK BUSINESS PLAN**

| SUMMARY | 2014/15 £000 | 2015/16 £000 | 2016/17 £000 | 2017/18 £000 | 2018/19 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **CAPITAL EXPENDITURE** | | | | | |
| Planned Improvements | £5,232,571 | £6,159,620 | £5,604,837 | £5,917,307 | £6,686,657 |
| New Build | | £1,153,415 | £3,549,258 | £3,645,699 | £3,744,823 |
| IT Investment | £150,000 | £0 | | | |
| Slippage (Previous Years) | | £569,804 | | | |
| | £5,382,571 | £7,882,839 | £9,154,095 | £9,563,006 | £10,431,480 |
| **CAPITAL FUNDING** | | | | | |
| Major Repairs Allowance | £2,400,000 | £2,400,000 | £2,400,000 | £2,400,000 | £2,400,000 |
| Usable Capital Receipts | £42,475 | £21,994 | £22,774 | £23,577 | £24,405 |
| CERA | £593,193 | £2,522,541 | £1,990,348 | £2,196,164 | £2,278,649 |
| Efficiency Savings - IT investment | £150,000 | £150,000 | £150,000 | £150,000 | £150,000 |
| Prudential Borrowing | £2,196,903 | £2,788,304 | £4,590,973 | £4,793,265 | £5,578,426 |
| | £5,382,571 | £7,882,839 | £9,154,095 | £9,563,006 | £10,431,480 |
| **REVENUE EXPENDITURE** | | | | | |
| Management ~ General | £2,503,711 | £2,492,663 | £2,581,611 | £2,673,652 | £2,768,892 |
| Special & Welfare Costs | £90,048 | £93,673 | £99,339 | £105,260 | £111,447 |
| Repairs & Maintenance | £3,230,069 | £3,133,177 | £3,247,158 | £3,365,159 | £3,487,318 |
| HRA Subsidy Payment | £3,139,974 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Rent Rebate Subsidy Limitation | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| CERA | £743,193 | £2,672,541 | £2,140,348 | £2,346,164 | £2,428,649 |
| Provision for Bad Debts | £132,723 | £132,905 | £134,662 | £136,014 | £137,263 |
| Capital Financing Costs | £3,205,032 | £4,915,905 | £6,013,621 | £6,322,948 | £6,654,558 |
| | £13,044,750 | £13,440,864 | £14,216,739 | £14,949,197 | £15,588,127 |
| **REVENUE INCOME** | | | | | |
| Rental Income | £12,911,944 | £13,188,855 | £13,981,271 | £14,620,826 | £15,229,487 |
| Garage Income | £164,724 | £171,987 | £181,221 | £188,345 | £194,937 |
| Service Charges | £0 | £236,874 | £247,978 | £259,484 | £271,408 |
| Interest on Balances | £3,600 | £10,955 | £12,084 | £13,025 | £13,585 |
| | £13,080,268 | £13,608,671 | £14,422,554 | £15,081,680 | £15,709,417 |
| **BALANCES** | | | | | |
| Balance brought forward | £1,287,023 | £1,322,541 | £1,490,348 | £1,696,163 | £1,828,646 |
| Surplus / Deficit (-) For Year | £35,518 | £167,807 | £205,815 | £132,483 | £121,290 |
| Balance carried forward | £1,322,541 | £1,490,348 | £1,696,163 | £1,828,646 | £1,949,936 |
| | | | | | |
| Estimated Average Actual Rent | £73.00 | £74.93 | £78.95 | £82.06 | £84.93 |
| Estimated Target Rent | | £76.60 | £79.28 | £82.06 | £84.93 |
| | | | | | |
| Year End Outstanding Debt £000 | £29,759 | £69,054 | £70,837 | £72,593 | £74,896 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **17 Chwefror 2015**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Julian Thompson-Hill /Paul McGrady**

**Awdur yr Adroddiad:** **Paul McGrady**

**Teitl:** **Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Bidiau Cyfalaf a dderbyniwyd i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf 2015/16.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor archwilio, wedi cyfarfod ar sawl achlysur i ystyried ceisiadau a baratowyd gan bob adran.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r Cabinet yn cefnogi'r prosiectau yn atodiad 1 i'w cynnwys yn y cynllun cyfalaf 2015/16 ac argymhellir yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16 yn unol â'r un ar gyfer 2014/15, ac mae'n parhau â'r setliadau cyfalaf gwael diweddar.

Gyda'r diffyg buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i ddibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Mae hyn yn golygu naill ai gwerthu asedau i gynhyrchu derbyniadau neu ddefnyddio benthyca darbodus.

4.2 Mae'r Cyngor yn anelu i gael gwared ar nifer o safleoedd dros y tair blynedd nesaf. Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2015/16 yn cynnwys £590 mil o asedau sydd ar hyn o bryd yn symud ymlaen i gael eu gwaredu, a rhagwelir y byddant yn cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2015 a £1.615 miliwn mewn perthynas â gwerthu safleoedd masnachol a ragwelir i gael ei gwblhau yn ystod 2015/16. Mae dyraniad y cronfeydd hyn i gynlluniau yn un dros dro nes bod y cronfeydd yn cael eu derbyn o warediadau.

4.3 Mae’r cyllid sydd ar gael ar gyfer 2015/16 yn cael ei ddangos isod:

| **Ffynhonnell** | **Swm £000** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,834 |
| Benthyca â Chymorth Heb ei Neilltuo | 3,013 |
| Benthyca Darbodus – Priffyrdd | 2,085 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 280 |
| Derbyniadau Cyfalaf y Dyfodol - Gwaredu asedau parhaus | 2,205 |
| Arian wrth gefn heb ei wario d/y/Arall | 293 |
| **Cyfanswm Cronfeydd sydd ar Gael 2015/16** | **9,710** |

4.4 Mae'r Cynllun Cyfalaf yn gwario arian ar ddau fath o brosiect. Yn gyntaf mae prosiectau untro fel ysgol newydd neu ailwampio canolfan hamdden, yr ail fath o wariant yw 'dyraniad bloc'. Mae'r rhain yn rhaglenni parhaus o waith sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd (ac efallai byth yn gyflawn) e.e. cynnal a chadw ysgolion. Gellir talu am elfennau o'r gwaith hwn o gyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw, ond mae rhan sylweddol yn cael ei ariannu drwy'r cynllun cyfalaf.

**Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

4.5 Penderfynodd y Grŵp Buddsoddi Strategol i wahodd ceisiadau yn unol â'r dyraniadau bloc y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan adrannau. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu 12 o geisiadau dros nifer o gyfarfodydd.

4.6 Cafodd pob cais ei gyflwyno gyda chymeradwyaeth y pennaeth gwasanaeth perthnasol.

- Y bwriad yw dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae dyraniad o £220 mil yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Teleofal. Mae'r cyllid hwn yn cael ei dargedu at alluogi'r henoed a phobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Y bwriad yw dyrannu £140 mil i’r Ystâd Amaethyddol i gefnogi rhesymoli’r ystâd a mynd i’r afael â materion Iechyd a Diogelwch. Mae'r dyraniad hwn dros dro, yn amodol ar waredu asedau.

- Mae cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion a rhai nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, DDA ac ati. Argymhellir bod £2.075 miliwn yn cael ei ddyrannu i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion. O'r swm hwn, bydd £275 mil dros

dro, yn amodol ar waredu asedau. Bwriedir hefyd i ddyrannu £450 mil i waith cynnal a chadw cyfalaf nad ydynt yn ysgolion. O'r swm hwn, bydd £50 mil dros dro, yn amodol ar waredu asedau. Argymhellir ymhellach fod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu union ddyraniadau i'r gwaith penodol sydd eu hangen, yn nhrefn blaenoriaeth.

- Mae priffyrdd wedi cael £100 mil i gefnogi benthyca darbodus fel rhan o'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16. Bydd hyn yn caniatáu tua £1.75 miliwn o wariant cyfalaf. Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £1miliwn ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. O'r swm hwn, bydd £125 mil dros dro, yn amodol ar waredu asedau. Yn ogystal â hyn, cynigir i ddyrannu £125 mil fel arian cyfatebol i gefnogi cais am grant £375 mil i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith gwella risg llifogydd arfordirol yn Nwyrain Y Rhyl.

- Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol gynnig ar gyfer newid yr holl lusernau goleuadau stryd o fewn Sir Ddinbych gyda llusernau LED newydd. Bydd y rhaglen arfaethedig yn costio £2 filiwn i gyd dros chwe blynedd ac yn darparu arbedion sylweddol ar gostau ynni a chostau cynnal a chadw parhaus. Byddai'r cynllun yn cael ei ariannu drwy fenter cyllid Salix y Llywodraeth sy'n darparu benthyciadau di-log ar gyfer prosiectau ynni effeithlon a bydd yn cael ei ad-dalu drwy ddefnyddio'r arbedion a gynhyrchir. Mae'r costau o fewn y cais wedi cael eu cytuno gyda chyllid canolog. Mae ceisiadau am gyllid Salix yn ofynnol yn flynyddol, ac mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cyflwyno cais i gael benthyciad Salix ar gyfer costau blwyddyn gyntaf sy'n £335 mil i'w ad-dalu dros 6 blynedd.

- Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol gynnig ar gyfer cyllid i gyflwyno rhaglen o adfywio trefol drwy gyflenwi llety busnes modern. Argymhellir dyrannu £1.615 miliwn i'r fenter hon, ond bydd hyn dros dro yn amodol ar waredu safleoedd masnachol, y rhagwelir yn ystod 2015/16.

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5miliwn, yn unol â 2014/15.

4.7 Mae Atodiad 1 yn dangos y prosiectau a restrir gyda'r cyllid a argymhellir ar gyfer pob un. Mae pob prosiect sy'n cael ei argymell i'w gymeradwyo yn cael ei ddangos o dan golofn wahanol yn yr atodiad:

- PB Highways - £2.085miliwn. Mae hyn yn £1.75miliwn o fenthyca darbodus i'w gefnogi gan y gyllideb refeniw fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ar 3 Chwefror 2015, ynghyd â chais am £335 mil arfaethedig am gyllid Salix.
- Cronfeydd y Cyngor - Mae'r rhain yn gronfeydd fel grantiau cyffredinol, derbyniadau cyfalaf, a chronfeydd wrth gefn heb eu gwario. Mae'r arian hwn am flwyddyn yn unig.

4.8 Mae aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol fel a ganlyn:

- Aelod Cabinet - Cyllid ac Asedau
- Aelod Cabinet - Datblygu Economaidd
- Aelod Cabinet - Moderneiddio a Pherfformiad
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Archwilio
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Uchelgais Cymunedol ac Economaidd
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Rheolwr - Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae prosiectau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion corfforaethol y Cyngor.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 **Goblygiadau Cost**

Mae costau'r cynlluniau yn cael eu dangos yn Atodiad 1. Bydd y costau Benthyca Darbodus yn cael eu diwallu drwy gyllideb refeniw 2015/16.

6.2 **Goblygiadau o ran Staffio / TG / Swyddfeydd**

Mae'n ofynnol i bob prosiect newydd gwblhau Cynnig Prosiect neu ffurflen Achos Busnes a bod unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu:**

